

Cyflwyniad i reoli perllan



Cynhyrchwyd gan Brosiect Adfer Perllan
Gogledd Ddwyrain Cymru 2012

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru:

376 Stryd Fawr, Bangor, LL571YE.

ffôn: 01248 351541

www.northwaleswildlifetrust.org

e-bost: nnwt@wildlifetrustswales.org

Cyngor Sir y Fflint:

e-bost: biodiversity@flintshire.gov.uk,

ffôn: 01352 703263

Wood Cottage Berry Farm

Bettisfield Hall

Bettisfield

Nr Whitchurch

SY13 2LB

ffôn: 01948 710 525

Old Chapel Nursery

Chapel House

Glan y Nant

Llanidloes

SY18 6PQ

gareth@welshtrees.co.uk

www.welshtrees.co.uk

Dylunio gan Hannah Forde, Old
Wives Tale www.old-wives-tale.com

Cynnwys lluniau: Gareth Davies &
David Buttersworth



Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales



PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

Cynefin perllan traddodiadol



Mae arwynebedd perllannau traddodiadol yn y D.U. wedi gostwng dros 60% yn y 50 mlynedd diwethaf. Roeddynt unwaith yn nodwedd gyffredin yng nghefn gwlad Prydain, ond maent bellach yn bethau prin. Yn ddiweddar, fe'u rhestrowyd fel cynefin blaenoriaeth bioamrywiaeth cenedlaethol.

Wrth gollir cynefin perllan traddodiadol, rydym hefyd yn wynebu colli hyd at 1800 o rywogaethau sy'n gysylltiedig â pherllannau, amrywiadau ffrwyth prin, gwybodaeth, traddodiadau hynafol a nodweddion tirwedd amlwg. Arferion amaeth newidiol a chystadleuaeth o'r archfarchnadoedd sy'n gallu darparu ffrwythau a fewnforiwyd am brisiau rhad sy'n cael y bai am y dirywiad, ac am sicrhau nad yw ein cynnyrch perllan brodorol yn economaidd hyfyw.



Tybîr bod perllannau traddodiadol dros 60 mlwydd oed, ac yn aml maen nhw wedi bod ar yr un darn o dir am gannoedd o flynyddoedd; fe'u plannwyd ar ddwyseddau isel a'u trin gyda dulliau arddwysedd isel gan osgoi defnyddio plaleiddiaid a chwynladdwyr a chan annog pori a dulliau naturiol o reoli plâu.

Amrywiadau afal sy'n llywodraethu yn y perllannau a gysylltir yn draddodiadol gyda Gogledd Ddwyrain Cymru; maen nhw'n amrywio o berllannau ffurfiol a sefydlwyd ar borfeydd ffrwythlon, gyda draeniad rhydd, i goed amrywiol sy'n tyfu'n gyson ymhlith cloddiau. Yn ogystal ag afalau, mae gellyg, eirin, eirin duon, cnau Ffrengig a cheirios i'w gweld yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

Roedd perllannau ffermydd lleol traddodiadol yn stocio afalau seidr, afalau coginio, afalau aml bwrpas a gellygwîn (perry pears), gydag amrywiadau, maint a niferoedd cyfyngedig. Roedd perllannau etifeddol a sefydlwyd ar ystadau mawr yn stocio amrywiaeth ehangach o goed gan gynnwys afalau a gellyg melys a choginiol ac fe'u hystyrir yn brîn erbyn hyn.



Fruit

© Gareth Davies



Trees

© Gareth Davies



Mae'r amrywiadau traddodiadol hŷn hyn yn aml yn gweddu'n well i amodau safle lleol na'r cyltifarau modern. Er bod cyfran dda o'r amrywiadau coed ffrwythau traddodiadol wedi'u colli, mae nifer sylweddol wedi goroesi ac i'w canfod yn lleol. Ar raddfa genedlaethol, mae'r coed hyn yn bwysig o ran cynhyrchedd, amrywiaeth a gwydnwch yn erbyn plâu ac afiechydon. Mewn sawl achos, nid yw rhai amrywiadau o goed ffrwyth erioed wedi'u disgrifio'n lleol ac maent yn absennol o'r casgliad perllan

Mae porfeydd perllan traddodiadol fel rheol yn laswelltir heb ei wella sy'n llawn rhywogaethau; fe'i porir yn draddodiadol gan ddefaid, gwyddau a da byw ac mae'n darparu cysgod cyfleus a man diogel i wŷn bach y gwanwyn.

Perllannau a Bywyd Gwyllt

Gall perllan ddarparu noddfa i fywyd gwyllt yn y tirwedd sydd bellach yn cael ei dominyddu gan amaethyddiaeth ddwys. Mae'r cyfuniad o goed ffrwythau a glaswelltir oedd sy'n aml heb eu tarfu am gannoedd o flynyddoedd ac wedi osgoi unrhyw welliannau amaethyddol yn arwain at amgylchedd sy'n eithriadol o gyfoethog mewn bioamrywiaeth.



© Sarah Slater



© Stuart Body



© Jim Asher, Butterfly Conservation




© Andy Harmer



Gall un goeden afalau gynnal dros 1000 o wahanol infertebratau gan gynnwys gwyfynod, bygiau a chwilod. Yn aml, mae perllan draddodiadol yn darparu mosaig o wahanol gynefinoedd sy'n debyg i barcdir. Mae'r coed ffrwythau eu hunain yn darparu cyfleoedd amrywiol i fywyd gwyllt. Prennau caled ydynt, a'u hoes ddim yn rhy hir; mae hyn yn golygu y byddant yn dangos nodweddion hen goed fel bongyrff cau, rhisgl hollt a thyllau yn gymharol gyflym. Gan fod perllannau traddodiadol wedi'u plannu ar ddwysedd isel, mae'r pren marw a'r pren sy'n pydru fel rheol o fewn amgylchedd eithaf agored gyda llawer o olau a heulwen.



© David Green Butterfly Conservation



© English Nature



© Jim Asher Butterfly Conservation



© English nature



© Stuart Body



© Stuart Body

Mae'r ffactorau hyn yn darparu amodau delfrydol i infertebratau. Mae dros 400 math o bryfed wedi'u canfod mewn perllannau traddodiadol sy'n cael eu dosbarthu fel rhywogaethau pydru coed arbenigol. Mae'r infertebratau hyn wedyn yn darparu ffynhonnell fwyd i nifer o adar a mamolion. Yn y gwanwyn, mae blagur afalau, gellyg, éirin a cheirios yn darparu ffynhonnell neithdar ardderchog i nifer o bryfed gan gynnwys gwenyn, gwybed hofran a gwyfynod. Mae canghennau'r coed ffrwythau yn darparu safle nythu i fronfreithod mawr ac esgyll brithion ac mae ffrwythau sydd wedi syrthio yn bwydo infertebratau, adar a mamolion.



Planhigion Perllan: Ar wahân i'r coed ffrwythau, gellir canfod amrywiaeth eang o blanhigion mewn perllan. Mae ffyngau fel "chicken of the wood" a "weeping bracket" yn ffynnu ar bren marw a phren sy'n pydru. Mae'r glaswelltir heb ei wella sydd wedi'i dorri neu ei bori i'w weld yn aml mewn perllannau yn darparu'r cynefin delfrydol i grŵp prîn o ffyngau o'r enw capiau cwyr; mae cennau, mwsoglau a llys yr iau hefyd yn tyfu ar risgl coed ffrwythau. Mae planhigion dringo gan gynnwys iorwg, gwyddfïd ac uchelwydd yn tyfu trwy ganghennau clymog y coed ffrwythau. Mae aeron iorwg yn darparu ffrwythau cynnar i adar a ffynhonnell neithdar hwyr gwerthfawr i bryfed.



© Stuart Body

Mae gwyddfïd yn darparu ffynhonnell neithdar wrth flodeuo a ffrwytho yn yr hydref; mae pathewod, sef rhywogaeth gyffredin mewn perllannau traddodiadol, yn defnyddio rhisgl gwyddfïd i adeiladu nythod. Mae uchelwydd yn blanhigion lled-barasitig sy'n ffafrio coed afalau ac o ganlyniad, mae i'w weld yn aml mewn perllannau. Mae ei aeron gwyn yn darparu ffynhonnell fwyd yn y gaeaf i fywyd gwyllt yn enwedig y fronfraith fawr a'r telor penddu ymfudol all ymddwyn fel fectorau i wasgaru'r hadau.



Gall glaswelltiroedd sydd heb eu gwella mewn perllannau fod yn gyfoethog mewn blodau glaswelltír fel llygad llo mawr, umbellifers, meillion a ffacbys sydd i gyd yn ffynonellau bwyd defnyddiol ac yn creu dolydd sy'n fyw o bryfed peillio ym misoedd yr haf.



© Sarah Slater



© Sarah Slater

Infertebratau: Mae infertebratau'n defnyddio'r mosaig o gynefinoedd mewn perllan drwy'r flwyddyn. Bydd perllan amrywiol yn cynnal nifer o infertebratau dros eu cylchred bywyd cyfan. Yn y gwanwyn, mae gwenwyn a gwenyn meirch yn dod allan o'u gaeafgwsg ac yn bwydo ar y digonedd o flagur ffrwyth sydd ar gael; yn ddiweddarach mae eu gweithwyr yn helpu i reoli lindys. Mae llawer o wenyn i'w gweld yn aml mewn perllannau ac maent yn beillwyr ardderchog. Ym misoedd yr haf, bydd gwenyn yn canfod paill a neithdar ym mlodau gwyllt y glaswelltír a'r llwyni. Bydd pryfed cop yn hela ac yn adeiladu gweoedd i fantéisio ar yr holl bryfed sy'n cael eu denu at flodau a ffrwythau'r berllan. Mae ffrwythau sydd wedi syrthio yn yr hydref yn darparu bwyd i wenyn, gloïnnod byw, gwyfynod a gwybed hofran, tra bydd gwenyn yn gaeafgysgu mewn llwyni trwy'r gaeaf. Bydd buchod coch cwta yn gaeafu dan risgl coed ffrwythau.




Adar: Gall perllan unigol ddarparu bwyd a safle nythu i tua deugain o rywogaethau adar gwahanol gan gynnwys y fronfraith, llinos, gwybedwr, cnocell y coed, aderyn yr éira mudol, telor penddu a'r asgell goch. Bydd adar yn defnyddio cafnau coed a changhennau ar gyfer nythu a bwydo ar y ffrwyth drwy gydol y flwyddyn. Mae rheoli llwyni o amgylch perllan yn ddoeth hefyd yn gallu annog adar; er enghraifft, mae'n well gan goch y berllan a'r golomen Fair lwyni mawr. Mae adar ac ystlumod yn ymddwyn fel plaeiddiaid control naturiol y berllan gyda rhywogaethau fel y fronfraith a'r esgyll brithion yn bwydo'n ddiddiwedd ar fwydod.



© English Nature



© Sarah Slater



© Sam Dyer

Mamolion: Mae mamolion mwy fel llwynogod yn cael eu denu at berllannau i hela cwningod. Bydd llwynogod a moch daear hefyd yn bwydo ar ffrwythau sydd wedi syrthio. Bydd céirw, cwningod, ysgyfarnogod, llygod coch a llygod maes oll yn chwilota am fwyd yng nglaswelltir y perllannau. Mae'r pathew gollen yn fwy prin ond wedi'i gofnodi'n nythu mewn perllannau. Mae'r holl infertebratau a'r ffrwythau sydd wedi syrthio yn denu draenogod i berllannau. Bydd nifer o rywogaethau gwahanol o ystlumod hefyd yn defnyddio perllannau fel mannau i chwilota am fwyd; mae'r pípistrelle a'r ystlum clustiau brown hir yn bwydo ar yr infertebratau sy'n cael eu denu gan ffrwythau a phaill y berllan. Fel adar, bydd ystlumod yn defnyddio'r holltau a'r cafnau yng nghoed y berllan i glwydo.

Mae rhai rhywogaethau cyffredin perllan:

Mamolion:

Infertebratau:

Chwilen fawr
 chwilen y gerddi
 chwilen olew fioled
 lleuen les afal
 Brithribin gwyn
 Argws brown y gogledd
 brith perladeiniog
 marblen goed gwyfyn gafr
 orchard tooth

Draenog
 Pathew
 Ystlum: pedol fach,
 clustiau brown hir,
 soprano a pipistrelle
 cyffredin.

Ymlusgiaid:

Llyngyr daear
 Neidr y gwair
 Budrchwilen

Adar::

Gylfynbraff Llinos
 Y gwew gyffredin
 cnocell llai smotiog
 melyn yr eithin
 Aderyn y mynydd
 Aderyn y to gwybedwr smotiog
 Aderyn du
 Petrisen lwyd Titw'r helyg
 Drudwen
 Titw'r gors
 Llwyd y berth
 Aderyn y berllan
 Bronfraith y grug a'r fronfraith fawr
 Telor penndu

Amffibiaid:

madfall cribog
 mawr
 Llyffant cyffredin



Gellir gwella'r gwerth bioamrywiol mewn perllan yn rhwydd trwy gymryd rhai camau syml:

Plannu coed newydd: Er mai'r coed hŷn yw'r pwysicaf ar hyn o bryd, mae plannu coed newydd yn sicrhau dyfodol eich perllan ac yn cynnal strwythur oedran amrywiol fydd yn sicrhau amrywiaeth o wahanol gynefinoedd o fewn y berllan.

Cadw coed sydd wedi marw sy'n sefyll a choed sy'n marw, cyn belled â'u bod yn rhydd o afiechyd: Bydd hyn yn darparu is-haen i ffwng a chennau, darparu i grŵp o rywogaethau arbenigol sy'n ddibynnol ar goed sy'n pydru a chyfoethogí'r cynefin perllan naturiol ymhellach.

Plannu llwyni: Mae llwyni yn darparu cysgod i berllan a hefyd yn darparu cyswllt o ran cysylltu'r berllan gyda'r tirwedd o amgylch. Mae llwyni yn darparu cyfleoedd ar gyfer trawsbeilliad ychwanegol gyda rhywogaethau fel eirin gwyllt, collen ac afalau surion bach. Mae llwyni yn helpu creu microhinsawdd yn y berllan a gallant hefyd ddarparu ffynonellau bwyd ychwanegol dros y gaeaf, yn enwedig i adar.

Tynnu gormodedd maetholion o laswelltir y berllan: Dylid pori neu dorri'r glaswelltir i wair; mae hyn yn tynnu'r maetholion gan annog amrywiaeth o flodau gwyllt a fydd yn helpu denu peillwyr i'r berllan.

Cadw ffrwythau sydd wedi syrthio: Mae ffrwythau sydd wedi syrthio yn darparu ffynhonnell fwyd amhrisiadwy i nifer o rywogaethau gan gynnwys adar, mamolion ac infertebratau. Dylid cofio, fodd bynnag, bod tueddiad gan goed afiach i gadw ffrwythau ar eu canghennau gan felly fytholi cylchred bywyd y pathogen.

Plannu perllan



Disgrifir perllannau traddodiadol fel planhigfeydd cymysg o goed ffrwythau sy'n cael eu tyfu ar wreiddgyff dewisol ac sy'n cael eu magu fel coed tal neu goed hanner tal a sefydlwyd ar ddwysedd plannu o 300 o goed yr hectar. Caiff coed eu tyfu ar wreiddgyff penodol, gyda gofod o 5 i 7m rhyngddynt gydag uchder terfynol o 10 i 12m.

Y Safle: Byddai gan safle delfrydol i berllan ffrwythau lethr graddol yn wynebu'r de gyda chysgod o wyntoedd oer, ar neu islaw 90m/300troedfedd gyda phriddoedd sy'n draenio'n weddol rhydd o pH 5.6 i 6.0 gydag oddeutu 75cm/30modfedd o lawiad y flwyddyn.

Bydd safleoedd o'r fath yn cynhyrchu ffrwythau o ansawdd a blas da. Ymhellach, dylid darparu digon o ofod sy'n briodol i gryfder y gwreiddgyff a ddewisir. Bydd safleoedd sydd ychydig yn uwch a heb gymaint o gysgod yn dderbyniol, yn enwedig gydag amrywiadau o ffrwythau sy'n aeddfedu'n gynnar. Bydd niwed oherwydd rhew yn arwain at ostyngiad yn lefelau'r cynnyrch a hynny'n amlwg iawn gydag amrywiadau sy'n blodeuo'n gynnar ac a blannwyd mewn manau agored.



Bydd afalau'n gallu ymdopi gyda safleoedd mwy amrywiol ac amodau mwy amrywiol, a byddant yn cynhyrchu ffrwythau'n llwyddiannus hyd 180m/600 troedfedd. Mae yna berllannau ym Mhrydain ar uchder o 300m/1000 troedfedd, ond bydd cynhyrchiant ffrwythau yn fwy newidiol a'r dewis o rywogaethau'n fwy cyfyngedig. Dylid osgoi priddoedd dyfrlawn, safleoedd sy'n hynod o sych, manau agored, pantiau rhew a phriddoedd gyda lefelau pH uchel iawn neu isel iawn.

Mae yna gysylltiad rhwng perllannau traddodiadol a phori ysgafn, ac yn wir bydd perllannau yn gallu cynnal elfen o bori ysgafn. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod coed yn cael eu diogelu rhag pori a dylid eu ffensio tra'n cadw llygad manwl ar lefelau pori. Er bod pori yn ffordd o reoli chwyn llysieuol a phrennaidd, gall stoc domestig niweidio coed.

Dewis Coed: Dylid dewis y math o ffrwyth a'r amrywiadau ffrwyth yn ôl amodau'r safle, grwpiau peillio, ffactorau hinsawdd a blas. Teimlir yn aml fod amrywiadau etifeddol yn well oherwydd rhesymau ecolegol, gan nad ydynt yn dibynnu ar blaleiddiaid; gallant felly greu gwell amgylchedd i fywyd gwyllt.

Wrth ddewis coed ffrwythau, dylid prynu planhigion iach, cydnorth eu golwg sydd wedi'u caledu'n ddigonol i wrthsefyll amodau tywydd gaeafol. Mae'r rhan fwyaf o feithrinfeydd traddodiadol yn stocio amrywiadau etifeddol gyda thoriadau wedi'u grafftio ymlaen i wreiddgyffion mewn cynhwysydd neu drawsblaniadau gwreiddyn noeth.



© John Purchase

Paratoi'r Safle: Dylid paratoi'r safle i sicrhau bod coed yn cael eu planau mewn mannau priodol. Yn ddefnyddol, dylid cael gwared â chwynn gyda llaw neu trwy ddefnyddio chwynnaddwr addas. Dylid palu neu aredig tir caled neu briddoedd crynodol a dylid gwreithio'r pridd. Os yw safle'n un agored, dylid darparu amddiffyniad trwy godi atalfa wynt.

Trin a Gofalu am Blanhigion: Mae nifer o goed ifanc yn methu tyfu neu'n marw'n gynamserol oherwydd esgeulustod a/neu'n cael eu trin yn arw wrth blannu. Mae'r math hwn o niwed fel rheol yn digwydd mewn 3 ffordd; gwreiddyn yn sychu, gorboethi/rhewi a/neu sioc gorfforol. I gael gwared â'r problemau hyn, dylid sicrhau bod coed yn cael eu cadw mewn cynwysyddion addas a'u dyfrhau yn ôl yr angen; dylid hefyd storio'r coed ifanc yn y cysgod a/neu dan do a thynnu'r goeden o'r cynhwysydd neu fag pan fyddwch yn barod i'w phlannu. Gall coed ifanc ddioddef sioc gorfforol felly dylech eu trin yn ofalus, peidio â gollwng neu daflu planhigion ifanc, a chofiwch fod yn ymwybodol o flagur tyner.



© John Purchase

Pryd i Blannu: Mae'r tymor plannu safonol i goed gwreiddiau noeth rhwng Tachwedd a Mawrth. Gellir plannu coed a dyfwyd mewn cynwysyddion lawer yn hwyrach ym misoedd yr haf gyda rhaglen ddyfrhau rheolaidd. Yn ystod tymor plannu'r gaeaf, mae coed ynghwsg, a byddant yn gallu goddef ychydig o aflonyddwch. Dyma rai rheolau syml i'w dilyn wrth blannu coed ifanc: peidiwch â phlannu os yw'r ddaear yn rhewedig a pheidiwch â phlannu os yw'r ardal yn ddyfrlawn.


Bylchiad: Yn gyffredinol, mae'r bylchiad rhwng planhigion yn dibynnu ar faint potensial y coed aeddfed, a hynny'n dibynnu'n bennaf ar nerth a nodweddion tyfiant y gwreiddgyff. Mae perllannau traddodiadol sydd wedi'u stocio gydag amrywiadau etifeddol mawr wedi'u plannu gyda bylchiad o 5.5m sy'n golygu 330 o goed yr hectar. Caiff coed llai wedi'u grafftio ar goed hanner tal eu plannu gyda bylchiad o 3m sy'n golygu 1100 o goed yr hectar. Fodd bynnag, ystyrir bod pump o goed bach sydd wedi'u plannu mewn cynwysyddion ac yn cael eu cadw ar batio hefyd yn berllan!



Plannu: Mae'n bwysig iawn bod coed yn cael eu plannu'n gadarn ac ar y dyfnder cywir. Dylid bob amser sicrhau bod "coler gwreiddyn" y goeden ar y lefel cywir. Dyma ble mae'r gwreiddyn yn newid yn goesyn ac fel rheol mae marc pridd yn dynodi hynny, ynghyd ag ychydig o newid lliw (ni ddylid cymysgu gyda'r uniad grafft a fydd yn uwch).

Y dull sy'n cael ei argymhell yw **Plannu Pwll**, sy'n addas i bob math o bridd. Dyma fanylion y dull hwn:


- ➔ Cloddio pwll gan ddefnyddio rhaw neu fatog; dylai'r pwll fod yn ddigon mawr i'r system wreiddiau gyfan.
- ➔ Dal y goeden yn unionsyth yn y twll a sicrhau bod coler y gwreiddyn ar lefel y ddaear.
- ➔ Rhoi'r pridd yn ôl o amgylch y gwreiddiau a'i wasgu i gael gwared â phocedi aer. Gwneud yn siŵr bod y pridd yn llenwi dyfnder llawn y pwll.





Dull arall i blanhigion blwydd oed gyda gwreiddiau noeth mewn mannau sy'n draenio'n dda a heb chwyn yw'r **Dull Plannu Rhic**. Dyma fanylion y dull hwn:

- ➔ Torri rhic siâp L, T, V neu H yn ddigon dwfn i gymryd y system wreiddiau cyfan.
- ➔ Codi'r pridd i fyny gyda rhaw a gwthio'r gwreiddiau gan ofalu peidio â'u haflunio neu eu niweidio.
- ➔ Tynnu'r rhaw allan a chodi'r planhigion ar i fyny'n ofalus nes bod coler y gwreiddyn ar lefel y ddaear.
- ➔ Yna gwasgu'r pridd gyda'r sawdl i gael gwared â phocedi aur, nes bod y goeden yn gadarn ac unionsyth.




Bonynnu a Dyfrhau: Nid oes angen bonynnu coed sy'n llai na 1.2m. Fodd bynnag, os ydych am blannu coed mawr, yna rhaid bonynnu'r goeden hyd at draean yr uchder gydag un rhwymyn. Bydd ychydig o symudiad yn ysgogi'r gwreiddiau i dyfu. Dylid bob amser sicrhau bod y coed yn cael eu dyfrhau ar ôl eu plannu ac wedyn cynnal rhaglen ddyfrhau yn ystod y cyfnod ymsefydlu.



Ol-ofal: Ar ôl i'r coed gael eu plannu, dylai'r ôl-ofal ganolbwyntio ar ddyfrhau, chwynnu, rheoli plâu a sírhau bod y coed yn sefydlog. Dylid cadw gofod o 1m2 o amgylch gwaelod pob coeden yn rhydd o chwyn. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio tomwellt organig, matiau tomwellt, chwynnu â llaw neu chwynladdwyr. Nid yw strimio a thorri gwaïr o amgylch y coed yn rheolaidd mor effeithio â rheoli chwyn. Mae torri gwaïr yn annog tyfiant gwreiddiau ac wedyn bydd y gwaïr yn cystadlu am ddŵr a maetholion. Yn yr ychydig fisoedd cyntaf ar ôl plannu, yn enwedig ar ôl gwyntoedd cryf neu rew, mae'n bwysig gwasgu'r pridd yn gadarn o gwmpas y coed. Mae hyn yn golygu gwasgu'r pridd i lawr yn ofalus o gwmpas y goeden; mae hyn yn rhwystro pocedi aer rhag ffurfio o amgylch y gwreiddiau sy'n gallu gwneud y coed yn ansefydlog neu'n agored i níwed gan rew. Os nad yw coed wedi'u sefydlogi'n gywir, nid ydynt yn tyfu'n dda a byddant fel rheol yn marw.

Mae cwningod, ysgyfarnogod, llygod maes a da byw yn gallu achosi cryn dîpyn o níwed i goed, yn enwedig coed ifanc. Dylid defnyddio gardiau amddiffynnol ynghyd â ffensys digonol gyda'r coed ifanc. Dylid gwirio gardiau'n rheolaidd a'u hail-osod os oes rhaid. Mae pryfed yn gallu achosi i goed diddeilio a níweidio cyffion, rhisgl a gwreiddiau. Dylid cynnal ac archwilio coed yn rheolaidd a'u monitro am níwed. Os yw níwed yn digwydd, dylid cymryd cyngor a gweithredu i gyfyngu ar y man a effeithiwyd.



Rheoli

Rheoli perllannau a'r gyfraith: Bydd y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'ch perllan chi yn dibynnu ar ei lleoliad, ar unrhyw amodau diogelu a'r rhywogaethau all fod yn bresennol. Os mai chi yw'r tîrfeddiannwr, byddwch yn aml yn ymwybodol o'r amgylchiadau hyn.

Mae'n bosibl i rai perllannau fod o fewn safleoedd cadwraeth dynodedig (e.e. SSSI) neu'n rai sy'n darparu cartref i rywogaethau wedi'u diogelu fel ystlumod. Os mai dyma'r achos, mae'n bosibl y bydd yn rhaid ymgynghori gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru cyn ymgymryd ag unrhyw waith. Ymhellach, mae Trwydded Cwmpo Coed y Comisiwn Coedwigaeth yn cyfyngu ar faint o goed a ellid eu disgyn heb drwydded. Mae'n bosibl y bydd rhai coed perllan hefyd wedi'u diogelu dan y Ddeddf Gynllunio Tref a Gwlad, os oes ganddynt orchmynion cadwraeth neu os ydynt yn tyfu o fewn ardal gadwraeth ddynodedig. I'r coed hyn, mae'n drosedd torri'r brîg, cwmpo neu niweidio neu ddiinistrio coeden yn fwriadol heb ganiatâd. Yn yr achosion hyn, mae yna rai eithriadau penodol all ganiatáu gwaith ar goed sy'n cael eu tyfu i gynhyrchu ffrwythau. Mae'r eithriadau hyn yn amrywio a dylid gofyn am ganllawiau eglur cyn ymgymryd â gwaith ar goed a ddiogelir.

Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn eich ardal a'r Comisiwn Coedwigaeth yn gallu dweud wrthy ch os yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i'ch coed perllan chi.



© Guy Springett

Rheoli ac Adfer: Fel gydag unrhyw gynefinoedd lled-naturïol, gall perllannau traddodiadol ddod yn wyllt a blêr heb sylw digonol. Rheolaeth “Arfer Orau” yw’r allwedd i sicrhau perllan iach a chynhyrchiol. Wrth ystyried rhaglenni adfer i gynefinoedd lled-naturïol, y cam cyntaf yw cynnal asesiad ac awdit ecolegol o’r berllan. Dylai’r asesiad hwn gynnwys yr holl stoc sy’n tyfu, ffiniau ac ardaloedd ffiniol, priddoedd, yr haen lysieuol a’r holl nodweddion eraill sy’n llywio rheolaeth i’r dyfodol, h.y. trefniadau mynediad, pa ddŵr sydd ar gael, marchnadoedd lleol a’r defnydd a wneir o’r berllan yn y pen draw. Wrth ystyried cyflwr corfforol coed unigol sy’n tyfu o fewn hen berllan, mae’n hanfodol bwysig adnabod amrywiaeth a gwerth etifeddol y goeden.



Amcanion: Dylai amcanion rheoli mewn perthynas â pherllannau etifeddol ganolbwyntio ar adfer iechyd a bywiogrwydd y berllan yn ogystal â chynhyrchiad. Os yw'r coed mewn cyflwr gwael a thu hwnt i adferiad, dylid mynd ati i grafftio deunydd sy'n blaguro i wreiddgyff addas. Bydd y broses hon o adfywio coed yn ymestyn goroesiad yr hen stoc a phan fydd y coed newydd wedi sefydlogi'n llwyr, gellir gadael i'r hen goed ddirywio'n naturiol. Cofiwch fod pen pydredig hen a dirywiol yn rhan ecolegol bwysig o unrhyw gynefin coediog lled-naturiol.



© Paul Parker 2012



© Paul Parker 2012



© Paul Parker 2012

Dylid canolbwyntio hefyd ar reoli plâu ac afiechydon yn ddoeth, ar docío adferol a/neu ffurfiannol, gwella cyflwr y pridd, lleihau unrhyw gystadleuaeth o chwyn ac ail-stocio lle bo hynny'n angenrheidiol.

Tocio: Ar ei ffurf symlaf, mae tocío yn golygu torri darn o goeden neu lwyn er diben arbennig. Defnyddir tocío i wella siâp a ffurf coeden tra'n cynnal ei hiechyd. Bydd tocío tyfiant nad oes ei angen a phren marw o hen goeden ffrwythau yn adfer iechyd a bywyd os yw'n cael ei wneud yn gywir.

Sut i Docío: Er bod sawl ffordd o docío coed a llwyni, mae'r egwyddorion cyffredinol a'r offer a ddefnyddir bron yr un fath. Defnyddir llifiau i dorri canghennau mawr a secateurs a thocwyr handlenni hir a thrwm i dorri darnau llai. Mae'n annhebygol iawn y bydd jobiau tocío cyffredin angen i chi ddefnyddio llif gadwyn; er hynny, mae'n opsiwn gofyn i berson proffesiynol docío coed mawr gyda llif gadwyn. Mae cyllyll minïog, cribinau, ysgolion a berfâu yn gyfarpar tocío defnyddiol hefyd.





Wrth docio, mae'n rhaid i doriadau fod yn lân, ac felly mae angen offer miniog. Bydd offer pŵl neu offer sydd wedi'i hogi'n anghywir yn malu meinwe ac yn gadael darnau bach blêr. Dylid hefyd defnyddio technegau sy'n osgoi rhwygo rhisgl yn ei ôl a stripio rhisgl. Mae'n hynod o bwysig osgoi rhwygiadau wrth ymyl coler y gangen oherwydd defnyddir y goler hon i wella'r clwyf ac mae'n amddiffyn rhag heintiad. Dylid pob amser lanhau a diheintio offer gyda chynnyrch pwrpasol neu wirod methyl i rwystro croes halogiad.


Dylid osgoi toriadau tocio llorweddol. Dylai pob toriad fod yn goleddu, yn barhaus ac yn lân er mwyn sicrhau bod dŵr ac unrhyw bathogenau'n rhedeg ymaith. Ni ddylai fod angen defnyddio paent i selio'r clwyfau gan y bydd technegau torri priodol yn hunan-wella. Dylid tocio coed yn ôl y rhywogaeth; mae gwahanol rywogaethau yn cael eu tocio ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Yn gyffredinol, caiff afalau a gellyg eu tocio yn y gaeaf yn ystod y cyfnod cysgu, ond caiff ceirios, eirin ac eirin duon eu tocio ym Mehefin pan fydd twf yn gryf. Mae'n fantéisïol i *Prunus* spp waedu gan felly rwystro mynediad pathogenau sy'n gysylltiedig â'r afiechyd deilen arian. Dylech sicrhau eich bod yn glanhau ar ôl gweithio, gan waredu gwastraff yn ofalus, yn enwedig os yw'r deunydd sydd wedi'i dorri yn dangos arwyddion o haïnt neu afiechyd allai fod yn gyffwrdd-ymlledol.





Dylai tocio ganolbwyntio ar gael gwared â changhennau meirw, afiach neu rai sy'n croesi, ar leihau gortlenwi a gwella cymesuredd a chydbwysedd, ac ail-ddiffinio siâp a strwythur os oes angen hynny. Defnyddir technegau gwahanol wrth docio coed sy'n dwyn ffrwyth ar y blaenau (coed sy'n dwyn ffrwythau ar eu blaenau) a gyda choed sy'n dwyn ffrwyth ar bren hŷn (coed sy'n dwyn ffrwythau ar eu cênciau).



Tocio'n
gywir



Meithrin
tyfu coed




Tocio
anghywir



Grafftio a Gwreiddgyff: Mae sawl math o ffrwyth yn methu cynhyrchu union gopïau trwy ffyrdd rhywiol - bydd gan goeden sy'n tyfu o hedyn batrwm genetig gwahanol i'r 'fam' goeden, yn debyg i fam a phlentyn. Er mwyn cynhyrchu union gopï, gyda'r un nodweddion ffrwytho, rydym yn cymryd darn o'r goeden wreiddiol, y planhigyn a ddymunir, a grafftio neu egino'r deunydd yn uniongyrchol i ddarn o wreiddgyff addas. Mae hyn yn ein galluogi i dyfu amrywiad o ffrwyth sydd yn union yr un fath â'r goeden rhiant.

Mae rheoli perllan yn debygol o gynnwys rhyw fath o grafftio neu egino. Ar ei ffurf sylfaf, mae'n golygu trawsblannu darn o feinwe o un goeden i goeden arall, gyda'r ail goeden yn datblygu'n union gopï o'r goeden wreiddiol. Mae technegau grafftio ac egino yn dibynnu ar feinwe fasgwlar (cambium) y gwreiddgyff yn uno i ffurfio darn sengl a pharhaus o feinwe. Bydd gan blanhigion sy'n datblygu o'r dulliau lledaenu hyn holl rinweddau'r fam blanhigyn ac egni'r gwreiddgyff. Defnyddir y ffenomen hon yn llwyddiannus pan gaiff coed ffrwythau eu dewis am eu gallu i gynhyrchu ffrwythau, a'r gwreiddgyff ei ddewis am ei egni, ei allu i oddef y pridd a'r safle a'r gallu i wrthsefyll afiechydon.




© John Purchase

Dewis Gwreiddgyff: un o'r ffactorau pwysicaf wrth ddewis gwreiddgyff yw'r cynhyrchiad ffrwyth. Mae maint coed a swmp y cynhyrchion yn y pen draw yn ddibynnol ar egni a bywiogrwydd y gwreiddgyff. Bydd coed afalau a dyfir ar gwrwiddgyff fel M9 a M26 ond yn cyrraedd uchderau cymharol fach gyda lefelau cynhyrchiad isel. Bydd coed afalau a dyfir ar wreiddgyff egniol fel M25 yn ysgogi coed ffrwytho mawr gyda'r gallu i gynhyrchu ffrwythau o ansawdd uchel.



Caiff gwreiddgyffion eu cynhyrchu mewn gwelyau lle mae'r deunydd rhiant wedi'i leinio allan a'r gwelyau yn cael eu llenwi â phridd bob gwanwyn, i annog rhan isaf y planhigion i gynhyrchu gwreiddiau ar waelod y blagur isaf. Yn y gwanwyn, caiff y pridd ei frwshio ymaith a bydd y canghennau gyda gwreiddiau'n cael eu torri i ffwrdd, a'u leinio allan wedyn i dyfu ymlaen. Mae meithrinfeydd yn cynhyrchu llawer iawn o'r deunydd hwn bob hydref, sy'n cael ei ddsbarthu fel "0 plws 1".


Mae gwreiddgyffion etifeddol yn dueddol o gynhyrchu coed mawr gan fod y gwreiddgyff wedi datblygu tapwreiddyn mawr, dwfn. Mae bridwyr planhigion modern wedi symud ymaith o'r rhain i gynhyrchu coed llai, haws eu trín. Mae dewis gwreiddgyff yn bwysig iawn gan y bydd yn adlewyrchu maint y goeden aeddfed. Bydd y gofod sydd ar gael a'r math o bridd lle mae'r goeden i'w phlannu hefyd yn dylanwadu ar y dewis o wreiddgyff. Rheol arall gyffredinol o ran coed ffrwythau yw po fwyaf yw'r goeden, yna po hiraf y cymer i gynhyrchu ffrwythau. Er enghraifft, bydd gwreiddgyff M25 yn cymryd rhwng 5-8 mlynedd, tra bydd M26 yn cymryd rhwng 2-3 mlynedd.





Technegau Grafftio: Mae yna ddau brif amgylchedd ar gyfer grafftio: allan yn y “maes” a grafftio “mainc” dan do mewn tŷ gwydr neu bolydwnel. Wrth grafftio yn y maes neu berllan, dewisir grafftiau “Chwip a Thafod” oherwydd bod y dafod yn ffurfio grafft cryf sy’n gallu gwrthsefyll gwynt. Mae’n bosibl defnyddio amrywiaeth o dechnegau mainc a dulliau amrywiol iawn o grafftio yn amgylchedd diogel y polydwnel.

Yn achos **egino**, defnyddir un eginyn sengl i gynhyrchu coeden ffrwythau newydd. Y prif fathau o eginio a ddefnyddir yw “T” neu Eginio Tarian, “T” Gwrthdro ac Eginio Chip. Mae’r rhain i gyd yn digwydd yn y maes trwy eginio ar wreiddgyff, a’r gwreiddgyff yn doriadau un oed sy’n cydweddu o ran amrywiad gyda’r deunydd grafftio neu’r amrywiadau a ddewisir. Bydd eginio fel rheol yn digwydd yng Ngorffennaf ac Awst.





Wrth **grafftio**, defnyddir toriad o'r amrywiad sydd ei angen gyda thri i bump blaguryn o'r enw "brigyn impiedig" i gynhyrchu coeden ffrwythau newydd. Mae'r canlynol yn fathau o grafftio: Chwip, Lletem, Chwip Cyfrwy a Graffiau Tafod. Bydd grafftio yn digwydd yn ystod y cyfnod cysgu yn Chwefror a Mawrth cyn i dyfiant y gwanwyn ymddangos.




Diagram by J Purchase





© Stuart Body

Cynhyrchedd a chynaeafu

Bydd coed a dyfir ar briddoedd ffrwythlon, mewn perllannau iach sy'n cael eu rheoli'n dda, yn cynnal lefel o gynhyrchedd ffrwyth am gyfnodau estynedig - yn aml dros 150 o flynyddoedd i afalau a 300 o flynyddoedd i gellyg.

Tocio er Cynhyrchedd: Mae tocio yn nodwedd bwysig o ran cynhyrchu ffrwythau. Mae gan wahanol amrywiadau o goed ffrwythwahanolarferion ffrwytho. Byddrhaicoed yn cynhyrchu ffrwythau ar geinciau ffrwyth sy'n tyfu ar bren dwyflwydd oed, tra bydd coed eraill yn cynhyrchu ffrwythau ar gyffion ffrwyth blwydd oed. Felly, bydd cael gwared o bren diangen a phren afiach yn cael effaith sylweddol ar gynhyrchedd, yn enwedig os yw'r dechneg anghywir yn cael ei defnyddio.

Cynaeafu: Dylid cynaeafu cnydau a hela ffrwythau pan fydd y ffrwythau'n aeddfed; mae'n well gwneud hynny o'r goeden cyn i'r ffrwythau ddechrau syrthio. Wrth blannu a dylunio perllan, dylid ystyried dewis amrywiadau sydd â'r gallu i gael eu storio.



Os am storio ffrwythau a'u defnyddio neu eu prosesu yn ddiweddarach, dylai'r ffrwythau sy'n cael eu cynaeafu fod yn aeddfed a chadarn; ni ddylent fod yn oraeddfed ac yn sicr dylid eu hela cyn i'r gwynt eu chwythu. Mae ffrwythau sydd wedi syrthio yn dueddol o gleisio a bydd hyn yn effeithio ar allu'r ffrwythau i gadw'n iach. Peth arall i'w ystyried wrth gynaeafu ffrwythau ar gyfer eu storio yw y bydd y cyfnod cynaeafu yn cael ei ymestyn gan na fydd yr holl ffrwythau'n aeddfedu ar yr un pryd. Mae cynydau afal masnachol (Amrywiadau Etifeddol) yn gallu cynhyrchu mwy na 120kg y goeden/30 tunnell fetrig yr hectar; fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o berllannau afal modern nawr yn dewis coed llai, ac yn eu plannu mewn rhesi i gynhyrchu dros 60 tunnell fetrig yr hectar.

Cynhyrchion Ychwanegol: Gall perllannau hefyd gynhyrchu incwm ychwanegol neu gynhyrchion ychwanegol fel uchelwydd yn y gaeaf, cennin pedr yn y gwanwyn a mêl. .



© Gareth Davies



© Gareth Davies



© Amanda Davies